# y dinesydd

Hydref 1996 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 222

**Cam mawr ymlaen ym myd addysg uwchradd**

# Datblygu Glantaf

gan Huw Thomas
Prifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Llawenydd i bawb sy'n cefnogi datblygiad addysg Gymraeg yn ein prifddinas oedd cyhoeddiad y Swyddfa Gymreig ddiwedd tymor yr haf fod Glantaf wedi ei dewis yng Nghynllun Ysgolion Poblogaidd Cymru i gael miliwn a hanner o bunnau er mwyn codi labordai newydd. Mewn gwirionedd, hawl i fenthyca gan Gyngor Sir Caerdydd yw hwn ac nid siec i'r ysgol!

Arwyddocâd arbennig y cyhoeddiad yw ei fod yn symbol o'r galw cynyddol gan rieni yr ardal am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn rhan o'r datblygiad adeiladu dros y pedair blynedd nesaf fydd sefydlu ysgol newydd yn Nhyllgoed, a hynny fis Medi 1998, tra bydd Glantaf yn addysgu ei phlant ar safle Ystum Taf yn unig o'r un dyddiad.

### Adeiladau newydd

Yng Nglantaf codir, yn ychwanegol at y tri labordy, adeilad a fwriedir yn bennaf ar gyfer cerddoriaeth, a hwnnw drws nesaf i'r stiwdio drama. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu ymhellach gerddoriaeth, drama, ac astudiaethau'r cyfryngau ym mhrifddinas y cyfryngau. Eisoes cawsom bob cydweithrediad gan gwmnïau teledu annibynnol a gwerthfawrogwn eu cefnogaeth yn fawr iawn.

Y ddau adeilad arall fydd bloc ar gyfer y chweched dosbarth a neuadd chwaraeon. Mae'r datblygiad yn cynrychioli cefnogaeth ymarferol Cyngor Sir Caerdydd i addysg Gymraeg, gan ddigwydd yr un pryd â sefydlu Ysgol Pwll Coch.

### Ail ysgol uwchradd

Y trydydd datblygiad cyffrous yw agor ail ysgol uwchradd Gymraeg ar safle Tyllgoed. Erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* bydd y cyhoeddiad statudol ynglŷn â sefydlu'r ysgol wedi ymddangos, ac erbyn Ionawr 1997 dylai bwrdd llywodraethol fod yn ei le. Bydd bodolaeth y bwrdd yn galluogi'r ysgol newydd i benodi pennaeth a gweddill y staff yn gynnar er mwyn i'r staff a'r rhieni newydd gyd-gynllunio'r ysgol, ei bwriadau, ei chwricwlwm a'i gwisg.

Mae llywio ysgol yn fraint unrhyw bryd. Mae arwain Glantaf mewn cyfnod datblygol fel hwn yn fraint ac yn gyfrifoldeb aruthrol.



**Breuddwydio'r dyfodol**: Mr Huw Thomas ger rhai o adeiladau presennol Glantaf. Llun: Robin Griffith

# Y Dinesydd

**Hydref 1996, Rhif 222. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnydd ar gyfer rhifyn Tachwedd at un o'r canlynol erbyn 18 Hydref:**
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282, Ffacs: 578106): Newyddion Cyffredinol.
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253): Newyddion y Fro.
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562): Newyddion Byd Addysg Gynradd.
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540): Newyddion Chwaraeon.
Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811): Newyddion o'r Eglwysi.
Ms Gill Stephen, Coleg Glan Hafren, 35 The Parade, Caerdydd (Ffôn: 250439): Gweithgareddau Dysgwyr.
**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Alun Ceri Jones, Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG. Ffôn: 01222 529888.

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court,
Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH
(Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Aled Williams, Rhos-y-grug, 89 Pentwyn, Radur, Caerdydd (Ffôn: 844483) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu'n drwm ar gyfraniadau'r rhai sy'n ei ddarllen.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

### Ymddeoliad hapus

Ar ôl treulio blynyddoedd yn Ddirprwy Bennaeth Adran Gymraeg y Cyd-bwyllgor Addysg, mae Philip Wyn Jones wedi ymddeol. Dymuna'r *Dinesydd* bob hwyl iddo, gan wybod nad ymddeol y bydd mewn gwirionedd gan fod ganddo ddiddordeb mewn llu o feysydd, yn arbennig byd y sinema. Gan ddechrau ar 6 Ionawr yn 38 Park Place, bydd yn rhoi cyfres o ddarlithiau ar 'Y Ffilm Gymraeg Ddiweddar'.

### FFURFLEN CYFRANNU A THANYSGRIFIO

a. Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd. ☐

b. Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*. ☐

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................


.............................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Dychweler y ffurflen hon i swyddfa Surrexit, 2 Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1DG.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 154** **Hydref 1996**



**AR DRAWS**

7. Ffrwd a dry yn danchwa. (8)
9. Y ddau wn sydd yn stoc y siopwr. (6)
10. Chwilio yn ddigynllun am wybodaeth, neu ymborth. (4)
11. Fe â onnen i beth arall, sef ynfydrwydd. (10)
12. Ynghanol y tywyllwch eithaf cafodd Gwilym ei hun yn barod i faddau. (6)
14. Ymddangosodd Dai mewn diwyg newydd ar ôl cael tröedigaeth. (8)
15. Teimlwyd tipyn o lwydrew yn yr awyrgylch pan benderfynwyd ail-ddosbarthu'r gwobrau, gan adael Wil allan ohoni. (6)
17. ........... a drws y gell yn peri braw. (6)
20. Byddai yn troi yn ôl i'w gynefin. (8)
22. Gollyngdod oddi wrth yr hualau. (6)
23. Fe giliodd goes y bachan yn yfflon o dano pan welodd ergyd y stori ddoniol. (10)
24. Hwn a Drambuie ar ôl cinio arbennig. (4)
25. Annedd dros gyfnod o dywydd braf. (6)
26. Mae porfa a thir yn ormod o ychydig i'r pennaeth. (8)

**I LAWR**

1. Efe a gymerth wraig. (8)
2. Minnau. (4)
3. Llwybr i allu cyrraedd y cae mawr. Gwelir blodau gwyllt ar hyd-ddi. (6)
4. 'Mewn undod y mae nerth' yw arwyddair y gweithwyr hyn. (8)
5. Boddir yw Gwy (sef y coed) gan yr afiaith hwn. (10)
6. Ystafell yn yr Eidal i gael tynnu llun. (6)
8. Rhai poethion yw y rhain. (6)
13. Yn Chwilog o'r naill ben i'r llall y cewch y tasgau dyrys hyn. (10)
16. Seneddwr o uchel radd. (8)
18. Ymhell o bobman. (8)
19. Afluniaidd. (6)
21. Efe sydd ar y blaen. (1,5)
22. Fe ddaru mi osod. (6)
24. Dihiryn o Fanc y Byd. (4)

**Croesair Rhif 153 (Medi1996)**
Trwy ryw anffawd, gadawyd allan nifer o'r cliwiau, fel nad oedd hi'n bosib ateb y pos yn gyflawn. Ymddiheurwn am hyn a chewch gyfle ar y pos cyflawn yn 1997.

**Croesair Rhif 154 (Hydref 1996)**
Tocyn llyfrau £5 fel arfer. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 20 Hydref.

# PENARTH A'R CYLCH

## Priodas
Yng nghapel Bethel, Penarth ddydd Gwener 26 Gorffennaf priodwyd Nia Lloyd ac Aneurin Thomas. Mae Nia yn ferch i Jill ac Edryd Lloyd ac Aneurin yn fab i Mr a Mrs Maldwyn Thomas o Fangor. Gweinidog Bethel, y Parchedig Meurwyn Williams oedd yn gweinyddu yn y gwasanaeth priodasol. Bu Nia ac Aneurin yn treulio eu mis mêl yn y Taleithiau Unedig ac erbyn hyn maent yn ôl yn eu cartref newydd yng Nglas Infryn ger Bangor. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau.

## Byd Addysg
Llongyfarchion i Matthew Cobb, Daniel Cousins, Lisa Daniel, Menna Lewis a Siân Thomas ar eu llwyddiant yn ennill graddau teilwng iawn yn eu gwahanol golegau eleni. Mae'r gymuned Gymraeg ym Mhenarth yn falch iawn o'u llwyddiant. Yn yr un modd, llongyfarchion i holl ddisgyblion Glantaf a chyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Penarth yn eu harholiadau perthnasol yn ystod yr haf.

## Priodas Ruddem
Llongyfarchiadau i Hazel a Tom Rees ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Ymlaen yn awr am yr aur.

## Bethel Penarth
Roedd gwasanaeth boreol Bethel Penarth ychydig yn wahanol ar 22 Medi. Croesawyd i blith yr aelodau Elenid Jones o Gymorth Cristnogol. Ni chafwyd pregeth fel y cyfryw ond arweiniwyd y gynulleidfa i Affrica fawr a'i phroblemau enbyd o dlodi na all y byd gorllewinol mo'u hamgyffred. Pwysleisiwyd yr angen am ailgylchu gofalus i arbed yr ychydig adnoddau sy ar gael. Yma tueddwn ni i ailgylchu'n wirfoddol ac efallai i leddfu cydwybod. Yn Affrica, ffordd o fyw yw hynny. Ie, gwasanaeth gwahanol ond treiddgar a gafwyd.

## Marw Mrs Megan Davies
Ym marw Mrs Megan Davies, Heol Redlands, collodd Penarth a'r Fro un o'i Chymry Cymraeg mwyaf adnabyddus. Fe'i hadnabyddid gan bawb fel mam yr efeilliaid, Elin ac Eirlys, y ddwy ohonynt yn dysgu yn ysgolion y dref.

Roedd yn aelod ffyddlon a gwerthfawr yng nghapel Bethel. Rhoes ffrwyth ei blynyddoedd i'r Achos ac fe'i perchid yn fawr gan yr aelodau. Bu'n warden rhan-amser ar Dŷ Llandaf pan oedd yr adeilad hwnnw'n gartre i genedlaethau o fyfyrwyr Prifysgol Cymru Caerdydd. Cafodd Cymdeithas Gymraeg y dref ei chefnogaeth dros nifer mawr o flynyddoedd. Bydd ei lle'n wag ond y cof amdani'n harddu blynyddoedd y rhai a'i hadnabu.

Gweinyddwyd yn ei harwyl gan y Parchedigion Maxwell Evans a Meurwyn Williams a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys wrth ochr ei gŵr ym mynwent gyhoeddus Penarth ar 17 Medi.

## Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys
Mae'r gymdeithas hon yn cyfarfod ar y dydd Llun cyntaf ym mhob mis yn neuadd Eglwys Bedr yn Ninas Powys. Agorwyd y tymor cyfredol gan Mrs Joy Parry. Testun ei hanerchiad oedd y Dwyrain Canol. Os am ragor o wybodaeth , cysylltwch â Moira Owen, rhif ffôn 701877.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Cerdd Dafod a Cherdd Dant'. Darlith gan Dr Enid Pierce Roberts, Bangor, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

Cwmni Theatr Gwynedd: Comedi Iwan Edgar, 'Tua'r Terfyn', yn y Coliseum, Aberdâr, am 7.30 p.m. Tocynnau: 01685-881188.

**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Darlith gan Simon Moffatt, Cwmni Olew Texaco, ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 1 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: 'Fy Newis I. 'Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Dr Esme Lewis, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Llun, 4 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson dan ofal Mallt Anderson a Myfanwy Jarman yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Gwener, 8 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Teithio Canada.' Noson yng nghwmni Mr a Mrs Rhys Morgan, yn festri Capel Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 9 Tachwedd**
Theatr Sherman: Cwmni 'O Glust I Glust' yn cyflwyno'r rhaglen i blant dros 4 oed, 'Straeon a Cherddoriaeth o Bedwar Ban Byd i Bawb', yn yr Arena am 11.00 a.m.

Ysgol Undydd ar 'Lenyddiaeth y Ddinas' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, rhwng 10.30a.m. a 4.00p.m. Darlithydd: Simon Brooks (Golygydd *Barn*). Cyswllt: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**Llun, 11 Tachwedd**
Cyfarfod o Ferched y Wawr yn festri Capel Minny Street.

**Mercher, 13 Tachwedd**
Darlith Goffa G. J. Williams: 'Deall Arferion Gwerin' gan yr Athro Trefor M. Owen, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 6.00 p.m.

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Astudio Tafodiaith yng Nghaerdydd'. Darlith gan Mr Vincent H. Phillips yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Ffiseg Snwcer.' Darlith gan Dr Iestyn Morris, Prifysgol Cymru Aberystwyth, ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 23 Tachwedd**
Ysgol Undydd ar 'Y Gymraeg ym Morgannwg a Gwent' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, rhwng 10.30 a.m. a 4.00 p.m. Darlithwyr: Beth Thomas a Siân Rhiannon. Cyswllt: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**Llun, 2 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Ysgol y Wern, yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: 'Y Ddawn Ddigri'. Noson yng nghwmni'r Parch. Caradog Evans, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Planhigion - Peiriannau Hydrolig Grymus.' Darlith gan Dr Deri Thomas, Prifysgol Cymru Bangor, ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd Nadolig yng Nghapel Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Apêl Bobath Cymru.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## Doh Mi Soh Do!
Un o gorau mawr Cymru yw côr Gwaelod-y-garth ac y mae eisoes wedi dechrau ar waith y flwyddyn sef *Elias* gan Mendelssohn. Mae croeso cynnes i aelodau newydd, brwdfrydig yn y côr, ac mae galw arbennig am sopranos. Mae'n cyfarfod yn neuadd bentref Efailisaf tua dwy filltir o Bontypridd am 7.30 ar nos Sul.

## GADAEL YR HEN FODRYB

Y dyddiau hyn y mae pedwar o leisiau ac wynebau mwyaf cyfarwydd BBC Cymru yn ymddeol, a'r pedwar yn byw yng Nghaerdydd.

A dweud y gwir, mae Eleri Hopcyn eisoes wedi rhoi'r gorau iddi ac yn methu'n lân a dyfalu sut yr oedd hi'n cael amser i fyw cyn hyn. Bu Eleri yn yr Adran Ddrama bron ers iddi adael y coleg yn ferch ifanc iawn! Dymuniadau gorau iddi hi ac i David.

O ddiwedd mis Medi ymlaen fydd Wyndham Richards ddim yn gwybod beth i'w wneud â'i amser. Ydy, mae cynhyrchydd *Wythnos i'w Chofio* - a *Diwrnod i'w Gofio* erbyn hyn - yn ymddeol o Adran Gyflwyno'r BBC, er nad yn llwyr ar unwaith. Fe ymunodd Wyndham ac Eleri Hopcyn tua'r un adeg ddiwedd y chwedegau.

A bydd Menna Gwyn yn ymddeol ddiwedd mis Hydref, ond yn dal i gynhyrchu rhai rhaglenni fel *Beti a'i Phobol* - diolch byth!

Byddai'n syniad da cael y tri i rannu rhai o'u profiadau gyda darllenwyr *Y Dinesydd* rywbryd. Rhyngddyn nhw, mae'n siŵr iddyn nhw fod yn dyst i lawer iawn o ddigwyddiadau pwysig, diddorol a difyr Cymru dros y blynyddoedd.

Dydy John Hughes ddim wedi bod ar staff Radio Cymru cyn hired â'r tri arall, ond fe fu ei gyfraniad lawn mor arbennig. Mae John ar ei ffordd i Sain Ffagan, i ofalu am Wyliau'r Amgueddfa. Pob lwc iddo yntau yn y gwaith newydd.

Sgwn i a oes rhywun rywle yn meddwl am sefydlu gwasanaeth radio i herio'r Radio Cymru presennol? Os oes, dyna i chi bedwar enw profiadol iawn yn barod!

## CÔR CENEDLAETHOL CYMREIG Y BBC

Un o brofiadau mawr y Côr yn ystod yr haf eleni, mae'n siŵr, oedd perfformio "Eleias" Mendelssohn ddwy waith gyda Bryn Terfel - yn Gymraeg yn y Steddfod yn Llandeilo ac yn Saesneg yn y Proms yn Llundain. Roedd y perfformiad yn Llandeilo'n arbennig nid yn unig am nad ydyn ni wedi clywed perfformiad mor arbennig o'r gwaith poblogaidd hwn yn Gymraeg ers blynyddoedd lawer, ond hefyd am fod tri unawdydd ifanc arall o Gymru wedi cael hwyl arni, er gwaethaf neu oblegid presenoldeb y Gŵr o Bant-glas.

Rhyfedd oedd clywed Gwyn Hughes Jones yn canu rhan y tenor, gan ein bod yn gyfarwydd ag ef fel bariton addawol ifanc iawn yn y Steddfod. Ond mae'n well ganddo *repertoire* y tenor, meddai fe.

Gwnaeth Eldrydd Cynan Jones waith canmoladwy iawn yn rhan y soprano, ac mae'n dda gweld bod y llais yn datblygu'n dda.

Cael ei galw i mewn ar fyr rybudd a wnaeth Siân Meinir, ac mae'n anodd credu y byddai'r contralto a oedd wedi ei chyflogi'n wreiddiol wedi cael mwy o hwyl arni. Roedd hi'n llawn hyder a'i llais yn arbennig o ddeniadol.

Richard Hickox oedd yn arwain y perfformiadau yn Llandeilo ac yn y Proms, ac roedd e'n rhyfeddu'n fawr fod y gwaith mawr yma'n cael ei ganu yn Gymraeg. Doedd e ddim yn credu bod y peth yn bosibl, a dweud y gwir, nes iddo gael ei atgoffa mai yn Gymraeg y cafodd y rhan fwyaf o'r Côr eu cyflwyno i "Be not afraid" ac "It is Enough", a hynny pan oeddem yn blant ifanc iawn mewn Ysgol Gân rywle digon pell o Neuaddau Cerdd mawr ein dyddiau ni. Atgoffwyd ef hefyd y byddai Terfel ei hun wedi canu nifer o brif unawdau'r gwaith mewn eisteddfodau bach a mawr yn ystod ei brentisiaeth, ac mai yn Gymraeg y byddai'n gwneud hynny, yn naturiol.

Roedd y cyngerdd yn Neuadd Albert yn achlysur hollol wahanol, gan fod y cyfansoddwr ei hun wedi arwain y perfformiad cyntaf erioed o "Elijah" yn Birmingham union ganrif a hanner cyn hynny, a'r gwaith wedi ei berfformio yn y Proms unwaith yn unig ers hynny.

## CLOD I IFOR REES

Yn ddiweddar anrhydeddwyd y Parchedig Ifor Rees â gradd Meistr yn y Celfyddydau gan Brifysgol Cymru, yn gydnabyddiaeth am ei gyfraniad i radio a theledu yn Gymraeg a hefyd am ei waith fel awdur. I nodi'r digwyddiad hwn, bu cyfarfod teyrnged iddo yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Daeth llu o'i gyfeillion a chydnabod i'r capel ac ar ôl hynny i'r festri i gyfranogi o swper blasus wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

Llywyddwyd y cyfarfod a chafwyd gair o ragarweiniad gan y gweinidog, y Parchedig Ddr T. J. Davies; yna bu amryw o bobl yn sôn am y gwahanol gyfnodau yn ei fywyd ac am ei weithgareddau yn ystod y cyfnodau hyn. Oherwydd anhwylder, ni allai'r Parchedig Rhys Nicholas fod yno i sôn am gyfnod coleg ac eisteddfod, ond darllenwyd cywydd o'i waith ar gyfer yr achlysur gan Wyndham Richards. Soniodd un arall o'i gyfoedion coleg, y Parchedig J. Eirian Davies am y cyfnodau hyn a chawsom ein diddanu gan gerddi difyr a gyfansoddwyd gan ffrindiau coleg, ambell un na fyddem yn disgwyl ei gweld o law myfyriwr coleg diwinyddol! Mrs Beti Wyn Davies a roes yr hanes am ofalaeth gyntaf Ifor Rees yng Ngwynfe, gofalaeth y bu ei wraig, y ddiweddar Mrs Joan Rees, yn gymorth mawr iddo ynddi. Yna daeth ei gyfnod ym myd y cyfryngau - fel cynhyrchydd rhaglenni radio a theledu. Y Parchedig R. Alun Evans a Dr Prys Morgan a roes grynodeb o'r cyfnod hwn. Am chwe mlynedd bu'n gofalu am gapel Gwaelod-y-garth yn wirfoddol a daeth Mefus Evans i'n hatgoffa am y cyfnod llewyrchus hwn yn ei hanes. Ers bron i bymtheng mlynedd bu'n gysylltiedig â Chymrodorion Caerdydd a soniodd Mrs Ray Evans am ei wasanaeth i'r gymdeithas fel llywydd ac ysgrifennydd.

Yn ystod y swper torrwyd teisen hardd a baratowyd gan Angharad Harding Jones ac Eluned Scott ac ar ran yr aelodau cyflwynwyd copi o *Gramadeg y Gymraeg* gan Peter Wynn Thomas iddo gan yr awdur.



*Yn sefyll:* Peter Wynn Thomas, Wyndham Richards, J. Eirian Davies, R. Alun Evans, Ifor Rees, Prys Morgan, T. J. Davies. *Yn eistedd:* Mrs Beti Wyn Davies, Mrs Mefus Evans, Mrs Ray Evans.


# DWY GYFROL DDIFYR

Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrolau gan ddau sydd wedi ymgartrefu yma, yng Nghaerdydd ers tro ond sydd â'u gwreiddiau yn ddwfn yn y Gogledd. Un o Lanfaglan ger Caernarfon yw **Fflorens Roberts** yn wreiddiol, ond y mae wedi byw yng nghyffiniau Caerdydd ers 12 mlynedd bellach. Dyma Mr. D. Gwyn Jones i adolygu ei nofel *Mae Bod yn Fyw yn Fawr Ryfeddod* (Gwasg Gee, £4.75, 122 tud.):

"Ar ôl treulio misoedd lawer mewn gwahanol ysbytai, gartref a thros y môr, yn ystod ac ar ôl y rhyfel, mae gen i barch mawr at nyrsys. Yn wir, i mi roedd pob nyrs - gydag ambell eithriad prin, ond cofiadwy - yn angel ac yn hawdd syrthio mewn cariad â hi! Treuliodd Fflorens (Mrs O.E.) Roberts, Radur, ran helaeth o'i hoes yn Chwaer-Nyrs mewn gwahanol ysbytai yn Lerpwl: yn 1979, ar ôl ymddeol, cyhoeddodd lyfr am nyrs arall y cymerai ddiddordeb yn ei hanes, sef Elizabeth Davies (Betsi Cadwaladr) o'r Bala, ac yn awr dyma gyfrol arall ganddi - *Mae Bod yn Fyw yn Fawr Ryfeddod* - o Wasg Gee.

"Nofel yw hon, seiliedig ar brofiad Fflorens Roberts fel nyrs cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n sôn am dreialon merch ifanc, ymhell o'i chartre yng Nghymru, dan hyfforddiant mewn ysbyty mewn lle dieithr, am ei chyfeillion a'r berthynas rhyngddi a'r Nyrs-Staff a'r Sister ar y ward a'r Sister-Hyfforddi, ac, wrth gwrs y Metron! Gan mai nofel yw hon, mae na dipyn o sôn am y 'stiwdants' - y cyw-ddoctoriaid dan hyfforddiant - a hanes y carwriaethau yn hollol gredadwy: nid Nerys yw'r gynta, na'r ola, i gael ei charu gan un, ond yn caru un arall a hwnnw'n 'cellwair caru tua Lerpwl na ... a'r Prelim mor agos!'

"Minnau'n cofio am y paratoi a fyddai yn y ward ar gyfer ymweliad arbenigwr neu ddoctor hŷn, a'r pwyslais mawr ar gael 'corneli'r gynfas yn geometrig o berffaith'. Dyma stori ddiddorol, yn rhedeg yn llyfn ac yn hollol ddarllenadwy, am nyrs ifanc a'i hymdrech i fod yn 'nyrs ddelfrydol'. Mae'n siŵr gen i y caiff llawer flas mawr ar ei darllen ... ac ambell nyrs a meddyg, efallai, a fu'n gweithio yn Lerpwl yn nabod ei hun yn yr hanes."



Fflorens Roberts *Llun: Robin Griffith*




Mae **Robin Gwyndaf** wedi hen ymgartrefu yng Nghaerdydd, wrth gwrs, ond y mae wedi ymroi yn egnïol dros y blynyddoedd i gyflwyno i ni gyfoeth diwylliannol ei ardal enedigol. A dyma amcan ei lyfr diweddaraf, *Y Ffynnon Arian: Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled: Cyfrol 1* (Gwasg Dwyfor, 400 tud., 171 llun, £15), sef cyflwyno portread, mewn gair a llun, o un o'r cymdogaethau Cymreicaf yng Nghymru, - Llangwm, Uwchaled.

Yn y gyfrol gyntaf hon cyfeirir at gymwynaswyr, megis Huw Jones, gwas fferm, baledwr, a chyhoeddwr llyfrau; John Ellis, cyfrwywr a cherddor, ac awdur *Mawl yr Arglwydd* (1816), sef y llyfr tonau cyntaf a gafodd Cymru; Hugh Evans, awdur *Cwm Eithin*; a William Jones, 'Ci Glas', pencampwr ym myd ymrysonfeydd cŵn defaid. Mewn penodau eraill trafodir hynafiaethau a llên gwerin, difyrrwch aelwyd a chyfoeth iaith. Sonnir am hanesion o'r gorffennol, megis Rhyfel y Degwm; gweithred fradwrus 'Charles Tân' yn rhoi un ar ddeg o adeiladau fferm ar dân mewn un noson; a gwasgaru llwch y Dr. John Sampson, y Romano Rai, ar y Foel Goch, yng nghwmni rhai o'r Sipsiwn Cymreig, gyda'u ffidlau a'u telynau. Ceir penodau sy'n manylu ar ddiddordeb pobl y gymdogaeth mewn barddoniaeth a cherddoriaeth, adrodd a drama, eisteddfod a 'chwarfod bach', Gŵyl Ysgol Sul ac Ymryson y Beirdd, llyfr a chylchgrawn. Ond darlun o ddiwylliant yn ei gyfanrwydd yw'r un a gyflwynir. Sonnir hefyd, felly, am amaeth a chrefft, clwb troi a malwyr cerrig, ffair a masnach.

Dyma gyfrol hardd a difyr, sy'n fwynglawdd o wybodaeth.

* * *

## Fforwm Cymru y Newyn

**Nos Wener, 18 Hydref: 8 o'r gloch**

Gwasanaeth Coffa a Chymodi yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, a weinyddir gan y Gweinidog, y Parchg. Denzil John, i'r sawl a ddioddefodd o ganlyniad i'r Newyn Mawr yn Iwerddon a chyda golwg hefyd ar newyn, rhyfel a thlodi yn y Trydydd Byd heddiw. Bydd y gwasanaeth yn y Gymraeg gyda Saesneg a Gwyddeleg. Bydd y tri chôr canlynol yn canu:

1. Côr o Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant, Grangetown, Caerdydd, a ffurfiwyd yn arbennig i'r achlysur.
2. Côr Plant Caerdydd - plant o bob ysgol Gymraeg yn y ddinas.
3. Cór agus Ceoltóirí na hAislinge: côr a cherddorion traddodiadol Gwyddeleg a fydd yn canu yn ystod yr Offeren Wyddeleg bob Sul yn Eglwys y Gwaredwr Sanctaidd, Bray, Swydd Wicklow, Iwerddon.

Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o "Wythnos Un Byd", Caerdydd.

Am fanylion pellach ynghylch digwyddiadau a drefnir gan Fforwm Cymru y Newyn, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: Barry Tobin, 116 Stryd Brunswick, Treganna, Caerdydd CF5 1LN Ffôn: 01222 343251.

## CWMNI DRAMA'R CRWYS

Yn ein hadroddiad ar lwyddiannau'r Eisteddfod Genedlaethol, ni soniwyd am Gwmni Theatr Crwys a fu'n brysur iawn yno. Yn ystod yr wythnos llwyfannwyd tri gwahanol gynhyrchiad, sef dwy ddrama fer ac un ddrama hir, tipyn o gamp i gapel.

Yn ystod awr ginio ddyddiau Llun a Mawrth yn Theatr y Maes, perfformiwyd *Ar Amrantiad*, trosiad Annes Gruffydd o *In The Blinking of an Eye* gan Jeremy Hylton Davies. Ar wahoddiad Cymdeithas Ddrama Cymru y llwyfannwyd y ddrama a chafwyd perfformiad arbennig o dda gan Myfanwy Jarman a Mallt Anderson dan gyfarwyddyd Betsan Evans.

Ar y nos Fercher llwyfannwyd *Trwbwl Dwbwl*, addasiad Beni Harries a Mallt Anderson o'r ffars, *Out of Focus* gan Peter Gordon gydag Anne Jones yn cyfarwyddo. Hon oedd cystadleuaeth y ddrama hir ac er na fu'r cwmni'n llwyddiannus cafwyd môr o chwerthin yn ystod y perfformiad. Fe fydd cyfle i weld y ddrama hon adeg y Nadolig yn Theatr Crwys.

Bu cystadlu brwd ar y ddrama un act. Ar y nos Wener ym Mhontyberem y bu'r Crwys yn cystadlu gyda throsiad George Owen o *Amser i Hau, Amser i Fedi* ac fe ddaeth yr awdur, Harry Glass yr holl ffordd o Glasgow i weld y perfformiad. Cafodd y cwmni, Gill Griffiths, Betsan Evans, Arran Anderson a Robin Jones, feirniadaeth glodwiw a dim ond trwch blewyn oedd rhyngddynt a'r cwmni buddugol. Gobeithir llwyfannu'r ddwy ddrama fer yn yn Crwys yn y man.

Os oes unrhyw un â diddordeb yn myd y ddrama, mae croeso i ymuno â'r cwmni sy'n cyfarfod yn y Crwys bob nos Fercher am hanner awr wedi saith. Cysylltwch â Bob Roberts (627903) neu Janet Parry Jones (753375) am ragor o fanylion.




Mallt Anderson a Myfanwy Jarman yn un o olygfeydd *Ar Amrantiad.* *Llun: Robin Griffith*

### Cylch Llyfryddol Caerdydd

Cafwyd dechrau gwych eleni eto i gyfarfodydd gaeaf y Cylch Llyfryddol. Daeth Dr Siân Rhiannon i ddarlithio yn festri cyffyrddus lawn Eglwys Minny Street ar un o wragedd mwyaf nodedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Gwenynen Gwent. Mewn awr ddifyr cafwyd stôr o wybodaeth ganddi ac ehedodd yr amser megis ar adenydd gwenynen. Cadeiriwyd yn ddeheuig gan y Parchedig Ddr. Dewi Eirug Davies, ein cadeirydd am eleni.

## HWYL HAF TRELÁI 1996

Am gyfnod o dair wythnos, rhwng Mehefin 22 ac Awst 9, fe gynhaliwyd cynllun chwarae i blant rhwng pump ac un ar ddeg mlwydd oed yn Ysgol Uwchradd Trelái. Mi roedd hi'n antur arbennig ar safle newydd ac o dan arweinyddiaeth newydd. Yn y gorffennol fe'i cynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Coed-y-gof, Tyllgoed, ond eleni rhaid oedd codi gwreiddiau i le newydd sbon.




Fe gefais innau a'r is-arweinydd, Bethan Griffiths, y dasg anrhydeddus ac arswydus o gynllunio, trefnu, rhedeg a rheoli'r cynllun. Gydag oriau hir o waith, is-arweinydd arbennig a thîm cydwybodol o weithwyr fe lwyddon i greu awyrgylch ac amgylchfyd cysurus, hwylus a diogel ar gyfer deg ar hugain o blant anwylaf Trelái. Y syniad oedd darparu cyfres o weithgareddau, megis celf a chrefft, chwaraeon, gweithdai drama, sesiynau canu, ymwelwyr a thripiau di-ri i'r plant gael gwneud yr hyn yr oeddent ei eisiau a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mi roedd yn anrhydedd chwarae rhan ddiymhongar yn natblygiad y plant Cymraeg deallus a lliwgar yma.

Rhaid diolch i Rieni dros Addysg Gymraeg, Caerdydd (Rh.A.G.) Mae eu hymdrechion nhw yn sicrhau adeiladwaith o bontydd ieithyddol i blant (o gefndir Cymraeg a chefndir di-Gymraeg) ymarfer a gwella eu Cymraeg y tu allan i oriau'r ysgol. Diolch hefyd i "Plant Mewn Angen" am eu buddsoddiad ariannol yn nyfodol plant Caerdydd a'r Fro, i'r plant a ddaeth i'r cynllun am eu ffyddlondeb a'u brwdfrydedd, i'r staff am eu gwaith caled ac, yn arbennig, i Bethan. Hebddi hi ni fuasai'r cynllun wedi bod yn gymaint o lwyddiant nac yn gymaint o hwyl ... Ymlaen Trelái!

**Nicholas Daniels**
**(Arweinydd Hwyl Haf Trelái)**

* * *

### Geni Hannah Rebecca

Llongyfarchion i Wyn a Kate Innes, Llundain, ar enedigaeth eu hail blentyn, Rebecca Hannah beth amser yn ôl. Mae Tomos bach wrth ei fodd gyda'i chwaer, ac yn ôl y sôn, mae mam-gu, sef Anne Innes, Yr Eglwys Newydd yn bur falch hefyd. Mae Wyn yn gweithio gyda ffyrm o gyfrifyddion yn Llundain a dealla'r *Dinesydd* ei fod wedi cael dyrchafiad teilwng yn ddiweddar. Ein llongyfarchion cynhesaf iddo.

# NEWYDDION YR URDD

## ***NEWYDD***

### CLWB 'STEEL PANS' YR URDD



Am y tro cyntaf yn Ne Morgannwg mi fydd Clwb Paniau Dur yr Urdd yn cychwyn yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd nos Fercher 6 Tachwedd rhwng 6.00pm-7.30pm. Mae'r Urdd yn awyddus i ddenu bechgyn a merched blwyddyn 6 ysgolion cynradd Cymraeg y Sir sydd â diddordeb mewn dysgu chwarae paniau dur.

## *** TRIP ***

### TRIP PÊL-DROED CYMRU v TWRCI




Wedi llwyddiant tripiau pêl-droed i weld Cymru v San Marino a Chymru v Yr Iseldiroedd mae'r Urdd wedi trefnu trip i weld Cymru v Twrci yn y Stadiwm Cenedlaethol brynhawn dydd Sadwrn, 14 Rhagfyr 1996. Mi fyddwn yn cwrdd tu allan i Ganolfan yr Urdd am 2.00pm ac yn dychwelyd yn ôl i'r Ganolfan erbyn 5.30pm. Croeso i fechgyn a merched blynyddoedd 5 & 6 ysgolion cynradd a blynyddoedd 7 & 8 Glantaf.

## **GWEITHGAREDDAU**
## YN YSTOD HANNER TYMOR YR HYDREF

### 1. Cwrs Merlota Un-Dydd

Mae'r cwrs wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau, 24 Hydref 1996. Cwrdd tu allan i Ganolfan yr Urdd, Treganna am 9.15am a dychwelyd i'r Ganolfan erbyn 3.30pm. Bydd cyfle i ddysgu am geffylau, eu bwydo a'u glanhau, gwersi merlota, cystadlaethau a chwis am geffylau yn Nhresimwn (*Bonvilston*) ger Y Bont-faen. Bydd y trip dan ofal staff yr Urdd. Croeso i ferched a bechgyn blynyddoedd 5 & 6. •••••••••••••••••••



### 2. Cwrs Animeiddio Cynradd






Cynhelir y Cwrs Animeiddio yng Nghanolfan Chapter, Treganna ddydd Llun 21 a dydd Mawrth 22 Hydref rhwng 10.00am - 4.00pm ar gyfer disgyblion blynyddoedd 5 & 6 ysgolion cynradd. Cyfle i ddysgu animeiddio a gweld eich gwaith ar sgrîn fawr. Cwrs dan ofal arweinwyr profiadol Cymraeg.

### 3. Cynllun Chwarae yr Hydref



Bydd yr Urdd yn trefnu Cynllun Chwarae arall yn ystod Hanner Tymor yr Hydref ar gyfer disgyblion dosbarth derbyn a blynyddoedd 1, 2, 3 & 4 ysgolion cynradd Cymraeg y sir. Bydd y cynllun yn rhedeg rhwng 8.30am a 3.30pm ddydd Llun 21, dydd Mawrth 22 a dydd Mercher 23 Hydref. Mae'r cynllun yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau diddorol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn ychwanegol at ymweliadau oddi wrth gonsurwyr a chlowns!!

### 4. Cwrs Animeiddio a Ffilm (16+)



Mae Cwrs Animeiddio a Ffilm ar gyfer disgyblion chweched dosbarth Glantaf wedi ei drefnu gan yr Urdd yn Ne Morgannwg. Bydd y cwrs yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Chapter, Treganna ddydd Mercher 23, Iau 24 a Gwener 25 Hydref dan arweiniad staff animeiddio profiadol Cymraeg.

## HWYL!

**Os hoffech ragor o wybodaeth am un neu fwy o'r uchod cysylltwch a Siân Jobbins, Swyddfa'r Urdd. Ffon: 236201.**

# YSGOL GLANTAF

## Giggs arall i Gaerdydd?

Ymuno â'r un tîm ag Eric Cantona a Ryan Giggs - breuddwyd y mwyafrif o fechgyn mae'n siŵr. Ond fe wireddwyd y freuddwyd hon i Rhodri Jones yn ddiweddar wrth iddo arwyddo i dîm dan 15 Manceinion Unedig.



Rhodri Jones o Ysgol Glantaf yn arwyddo i chwarae gyda chlwb Manceinion Unedig
*Llun: Robin Griffith*


Dechreuodd Rhodri gicio pêl-droed gyda'i frawd hŷn pan oedd tua 7 oed. Yn ddiweddarach dechreuodd chwarae dros ysgolion Caerdydd a chafodd ei weld gan sgowt De Cymru. Roedd gan nifer o dimoedd ddiddordeb yn Rhodri ond penderfynodd mai Manceinion Unedig oedd y tîm yr hoffai ymuno ag ef.

Am y ddwy flynedd nesaf, tra yn astudio ar gyfer ei arholiadau TGAU bydd Rhodri yn ymweld yn achlysurol â Manceinion. Yna os bydd popeth yn mynd yn ôl y disgwyl fe fydd yn symud i Fanceinion lle caiff y cyfle i berffeithio ei sgiliau arbennig. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

* * *

## O Gymru i Rwmania a Bosnia

Yn ddiweddar bu plant Blwyddyn 8 wrthi'n brysur yn gwneud cwiltiau a theganau i'w hanfon i Bosnia a Rwmania. Cafodd y plant hwyl a boddhad yn gwneud y gwaith ac mae'n siŵr y bydd plant anghenus y gwledydd yma wrth eu bodd yn eu derbyn. Mrs Eluned Norton fu'n cyfarwyddo'r gwaith.



Plant Blwyddyn 8 a'u cwiltiau

## Ysgol Glantaf - Tanzania. Haf 1996

Edrychwn nôl ar ein hantur anhygoel i Gyfandir Affrica fel petai'n freuddwyd. Er hynny, ar y pryd doedd cropian lan ochrau serth Kilimanjaro yn bendant ddim yn y dychymyg. Wrth sefyll (neu yn hytrach gorwedd) ar 'Uhuru Peak', pwynt uchaf yr holl gyfandir (19,840 troedfedd), roedd edrych i lawr ar y golygfeydd prydferth yn ddigon i dynnu'ch anadl.

Wedi ein her gorfforol lwyddiannus, cawson ni safari gwych i weld holl fywyd gwyllt Tanzania. Yn sydyn, roedd yr hyn a welsom mor aml ar raglenni natur yn fyw o flaen ein llygaid - eliffantod, jiraff, y rheino du, llewod, hippos heb sôn am y miloedd o sebra, wilderbeest a mwncïod.

Ar ddiwedd y safari, yn ôl â ni i brifddinas Tanzania, Dar-es-Salaam i dreulio amser yn y "Dogo Dogo drop in centre for street children", sef cartref i blant amddifad. Cawsom y cyfle i weithio ac i chwarae gyda'r plant ac i sylweddoli y cyflwr truenus yr oeddynt yn byw ynddo. Roedd y profiad hyn yn agoriad llygad i bob un ohonom. Ar ôl tair wythnos blinedig, roedd hi'n amser i orffwys. Wrth orwedd ar draethau euraid Ynys Zanzibar, a nofio yn y môr cynnes, clir, roeddem yn medru edrych yn ôl ar bopeth roeddem wedi llwyddo i gyflawni yn ystod yr wythnosau cynt, o'r cyffro o gyrraedd copa Kili, i'r dadlau dyddiol am brisau da yn y marchnadoedd ac ar y strydoedd; goddef y drafnidiaeth gyhoeddus a'r ffyrdd erchyll, dŵr blas 'iodine' a'r 'Immodium' a'r ymdrech i gyfathrebu mewn Swahili bratiog.



Anna Auchterlonie, Rhian Blake, Eleri Rogers, Huw Williams, Jonathan Mills, Rhian Taylor, Marie Martin, Catrin Thomas, Samantha Hailes, Debbie Roberts, Kate Evans, Gwyndaf Jenkins, John Hayes

Diflannodd ein mis yn Tanzania fel fflach, ond mae gennym ni oll atgofion melys fydd yn aros yn ein cof am byth.

* * *

## CARYS BURGESS

Dymuniadau gorau i Carys Burgess o Lanrhymni. Bu Carys nôl a mlaen i'r ysbyty sawl gwaith yn ystod y deunaw mis diwethaf. Profodd ei bod yn ferch hynod o ddewr a'i gwên yn codi calon pawb sy'n cwrdd â hi. Dymuniadau gorau iddi gan ei ffrindiau i gyd. Cofion at y teulu i gyd yn enwedig Siân.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-rwyd



### "Clwb Dinas"

Ffurfiwyd y clwb hwn ddau dymor yn ôl gan rai o gyn-aelodau clwb y Barri. Bellach mae ganddo dri thîm yng Nghynghrair De Morgannwg, gan gynnwys y brif adran. Mae aelodau'r clwb yn amrywio'n helaeth o ran oedran a phrofiad - dechreuol a rhyngwladol. Nos Lun yw noson ymarfer y clwb, yn neuadd chwaraeon Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Cyncoed rhwng 6 a 8 o'r gloch yr hwyr. Dwy hyfforddwraig ryngwladol sy'n gyfrifol am yr ymarfer a braf yw gweld cnewyllyn o ferched sy'n siarad Cymraeg yn aelodau o'r clwb. Mae angen mwy o chwaraewragedd arnom. Beth amdani?

**Llongyfarchiadau** i dîm o dan 21ain oed Cymru am ddod yn seithfed ym Mhencampwriaeth y Byd yng Nghanada fis Gorffennaf. Awstralia, wrth gwrs, oedd yn fuddugol!

**Pêl-rwyd ryngwladol** yng Nghaerdydd, 11 Tachwedd (Jamaica), 25 Ionawr (Lloegr), 8 Mawrth (Gweriniaeth Iwerddon).

Cysyllter â Chymdeithas Pêl-rwyd Cymru (237048) i archebu'r argraffiad newydd dwyieithog o **Minirwyd** (y rheolau i chwaraewyr o dan 11 oed)

**Angharad Dafydd-Styles.**



## Pêl-droed

**Clwb Cymric - Tymor 1996-97**
**(Cynghrair Caerdydd a'r Cylch)**

Yn dilyn llwyddiant y tymor blaenorol - sicrhaodd yr ail dîm ddyrchafiad i'r 3edd Adran a daeth y tîm cyntaf yn drydydd yn yr Uwch Adran - y mae'r ddau dîm wedi gosod sylfeini cadarn unwaith eto ar gyfer y tymor hwn.

Enillodd y tîm cyntaf ei ddwy ornest ar ôl cael sgôr cyfartal yn yr ornest gyntaf ac enillodd yr ail dîm ddwy o'i bedair gornest gyntaf.

Parhau i gryfhau y mae'r clwb - bu hyd at 30 yn ymarfer yn rheolaidd dros yr haf ac y mae chwaraewyr newydd i'r clwb e.e. Iwan Rowlands (athro Daearyddiaeth yn Ysgol Glantaf) a Steve Doherty, wedi'u sefydlu eu hunain eisoes. Gan fod cynifer o chwaraewyr profiadol bellach yn y clwb y mae'r gobeithion yn uchel mai dyma'r tymor y gwelwn Glwb Cymric yn ennill pencampwriaeth yr Uwch Adran am y tro cyntaf yn ei hanes

**Hywel Price**




## Y Bêl Hirgron

Cawn hanes tîm Clwb y Cymric yn y rhifyn nesaf, a gobeithio y bydd yr hanes hwnnw'n fwy llewyrchus nag un prif glwb y Brifddinas. Collwyd y tair gornest gyntaf yn y Cynghrair Cenedlaethol gan ildio 13 o geisiadau a sgorio pump. Synnodd pawb wrth glywed y canlyniad o Sain Helen ddiwedd Awst, ac ni ddisgwyliwyd buddugoliaeth yn yr ornest nesaf ym Mhontypridd, er nad oedd Caerdydd erioed wedi colli gornest yn y Cynghrair yno. Ond colli honno a wnaethant, beth bynnag, cyn cael crasfa o bum cais i ddim gartref yn erbyn Llanelli, ac erbyn hynny roedd y cefnogwyr yn canu'n iach i'r Cynghrair ac roedd sibrydion i'w clywed ymhob man am ddyfodol yr hyfforddwr, Terry Holmes druan. Wedi ennill yn Nhreorci o un pwynt, a rhoi cweir i Lynebwy gartref, cododd ysbryd pawb, ond erbyn hynny clywyd sôn am wahodd Alec Evans yn ei ôl, a chan ddisgwyl dau bwynt arall - ac un neu ddau o bwyntiau bonws yn ogystal yn Nhrecelyn - dyna sut yr oedd hi ar y pryd.



Er gwaetha' sawl gornest dda, diflas oedd hi yn yr holl wlad ym Medi - ymgecru diddiwedd am arian, a'r clybiau'n bygwth gadael yr Undeb, a phan gollodd wyth o naw clwb eu gornestau yn erbyn clybiau Adran Gyntaf Lloegr yng Nghynghrair clybiau ddwy'r wlad, cawsai pawb lond bol. Ai ffawd a fu'n gyfrifol fod yn rhaid i Gaerdydd ofyn i Harlequins ohirio eu gornest nhw yn y Cynghrair newydd am nad oedd rheng flaen ganddynt?




**Clwb Pêl-droed**
**INTER CableTel**
**Cynghrair Cymru**
**Timau dan 11 oed**

Mae Inter CableTel yn chwilio am fechgyn neu ferched o dan 11 oed sydd â diddordeb mewn chwarae pêl-droed yng Nghynghrair Caerdydd a'r Cylch.
Mae'r tîm yn ymarfer bob nos Wener, 4.30pm - 6.00pm yn Stadiwm Athletau Caerdydd, Heol Lecwydd o dan ofal Mr Trevor Jones.

Am fanylion pellach cysylltwch â Trevor Jones 01222 620067 neu Lorraine Rogers 01222 566046

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gill Stephen

## *Shwmae eto!*

Erbyn hyn dylai pob un fod wedi dewis eu dosbarth am y flwyddyn hon ac wedi **cofrestru** gyda'r ganolfan. Nawr yw'r amser i feddwl am **glybiau a digwyddiadau ychwanegol** er mwyn ymarfer eich Cymraeg y tu allan i'r gwersi.

Fel y gwelwch chi yn y dyddiadur o ddigwyddiadau **isod** mae **digon o ddewis ar eich cyfer.**

Cofiwch hefyd fod modd i chi **ymuno â'ch cangen leol o** 'CYD' - y mudiad sydd yn dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr **ynghyd**. Os ydych am wybod ble a phryd mae eich cangen leol chi yn cyfarfod - ffoniwch fi yng Ngholeg Glan Hafren ar Gaerdydd 250439.

O.N. Cofiwch fod croeso i Gymry Cymraeg ddod i unrhyw un o'r digwyddiadau yn y dyddiadur. Mae nifer o Gymry yn mynd am goffi neu ginio a thipyn o glonc ac mae'n gyfle gwerthfawr i'r dysgwyr gael siarad â siaradwyr iaith gyntaf.

**Gill Stephen**
Tiwtor-Drefnydd (Cymraeg i Oedolion)
Consortiwm Caerdydd a'r Fro

**GEIRFA**
**cofrestru** - to register
**clybiau a digwyddiadau ychwanegol** - clubs and extra activities
**isod** - below
**digon o ddewis ar eich cyfer** - enough for you to choose from
**ymuno â'ch cangen leol o** - join your local branch of
**ynghyd** - together

Yr ateb i bos mis Medi
**'Pa lythyren o'r wyddor sydd yn bell, bell i ffwrdd?'**
*yw*
**'D' - achos ei bod ar ben draw y byd!**
Bydd enwau enillwyr y mis 'ma yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd*.

## ☆ CYSTADLEUAETH ☆

Y tro hwn pos arall yw ein cystadleuaeth
**'Beth sy â chant o goesau ond sy ddim yn gallu cerdded?'**

Mae **Coleg Glan Hafren** yn cynnig 'Pecyn Dychwelyd i'r Dosbarth' (sef pecyn o angenrheidiau ar gyfer mynd yn ôl at eich dosbarth ar ôl yr haf hir - ffeil, papur, pensiliau, pren mesur, ayb) i'r person cyntaf â'r ateb cywir. Ysgrifennwch ataf i nawr ar gerdyn post gyda'ch atebion. Y cyfeiriad yw Coleg Glan Hafren, 35 Y Parêd, CAERDYDD CF2 3AD




Atebion y Croesair gan Simon Cudicio, yn rhifyn Medi

## DYDDIADUR O DDIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **12/10/1996** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan Palmerston, Y Barri. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **16/10/1996** 7.00 - 9.00pm | Clwb Siarad, Canolfan Palmerston, Y Barri. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **17/10/1996** 11.45 - 1.15pm | Clwb Cinio, Canolfan Palmerston, Y Barri. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **26/10/1996** 9.30 - 1.30pm | Ysgol Undydd, Canolfan yr Urdd, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Womanby St., Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob nos Iau** yn ystod tymor yr ysgol 9.15pm | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa Gwesty Parc y Rhath (Roath Park Hotel) Ffoniwch Pete 763426 |
| **Pob bore Gwener** 9.30 - 11.30am | Clwb Coffi y Fro, Wesley Court, Dinas Powys. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046 |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Canolfan yr Urdd, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 513046 |
| **Pob dydd Gwener** Amser cinio | Mae nifer o Gymry Cymraeg a dysgwyr yn cwrdd i sgyrsio'n anffurfiol yn lolfa y 'Duke of Wellington' yn y Bont-faen. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Mae cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned o goffi yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (The Hayes), Caerdydd. Ffoniwch Chris Rees-Woodward 499593 |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN, y cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch 01222 665455 am fanylion pellach |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd - cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439 (Trefnwyd gan Gonsortiwm Caerdydd a'r Fro, Cymraeg i Oedolion) |

**AM FANYLION PELLACH FFONIWCH GILL STEPHEN - 250439**

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU · THE ARTS COUNCIL OF WALES

## YSGOLORIAETHAU I AWDURON 1997/8

Gwahoddir ceisiadau am y cymorthdaliadau canlynol:

- Ysgoloriaethau i Awduron Cyhoeddedig
- Ysgoloriaethau i Awduron Newydd
- Ysgoloriaethau ar gyfer cyfieithu gwaith llenyddol
- Ysgoloriaethau Irma Chilton ar gyfer ysgrifennu i blant
- Ysgoloriaethau i Awduron Anabl
- Grantiau Teithio

Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: **16 Rhagfyr 1996**

Ceir manylion ychwanegol a ffurflenni cais oddi wrth yr Adran Lenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF1 3NX. Ffôn: 01222 394711 Ffacs: 01222 221447

## RALI ENFAWR CYMRU NEWYDD

*NODWCH Y DYDDIAD:*
**16·11·96**
**CAERDYDD**

**DEDDF IAITH**
**DEDDF ADDYSG**
**DEDDF EIDDO**

- **RALI** Neuadd Undeb y Myfyrwyr – 2pm
  Siân Howys · Dafydd Iwan · Rhodri Morgan AS · Richard Livsey · Hywel Teifi Edwards
- **GORYMDAITH** trwy'r Ddinas – 3pm
- **PARTI** tu allan i'r Swyddfa Gymreig – 3.30pm
  Paul Flynn AS · Toni Schiavone · Cerddoriaeth Fyw · SAMBA GALES
- **GWYBODAETH AM FYSYS: 01970 624501**

## PARTNERIAETH ORCHARD DAVIES

**Gofal cyfeillgar i gwmniau bach ac unigolion**

***Gwasanaethau Busnes i'r Diwydiant Cyfryngau***

***Gwasanaethau Ariannol a Chyfrifon***
(yn cynnwys Hunan Asesiad a chyfrifon personol)

***Gwasanaethau Busnes***

***Gwasanaethau a Hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth***

**Ffoniwch 01222 251011 neu ysgrifennwch: Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Bae Caerdydd, CAERDYDD, CF1 6HG.**

## Cwrs Hyfforddi mewn Cymraeg i Oedolion

Bydd Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Cymru Coleg Caerdydd, yn cynnal cwrs hyfforddi tiwtoriaid yn y Ganolfan ar 22, 23 Hydref a 16 Tachwedd. Fe'i bwriedir ar gyfer Cymry Cymraeg a dysgwyr profiadol sydd erioed wedi dysgu Cymraeg o'r blaen ond hoffai wneud hynny neu diwtoriaid sydd wedi bod wrthi ers rhyw flwyddyn neu ddwy ond sydd ddim wedi derbyn unrhyw hyfforddiant yn y maes. Bydd y sesiynau hyfforddi'n rhai ymarferol, gyda'r pwyslais ar ddangos i'r darpar-diwtoriaid sut i ddysgu dosbarth yn effeithiol.

**Am ragor o fanylion cysylltwch â:**
**Richard Lewis, Canolfan Dysgu Cymraeg,**
**22 Park Place, Caerdydd.**
**Ffôn: (01222) 390980 Ffacs: (01222) 236071**

## CLWB IFOR BACH

**11 Stryd Womanby, Caerdydd**

## Adloniant Byw:

**Tachwedd 2**
**SOBIN A'R SMAELIAID**

**Tachwedd 15**
**MEIC STEVENS**
**ALBERT HOFMAN**

**Tachwedd 16**
**DIFFINIAD**

Ystafelloedd ar gael i'w llogi allan i fudiadau Cymraeg am bris rhesymol iawn!

**Cysyllter â Ceri Morgan ar 01222 232199**

## *Cymdeithas Addysg y Gweithwyr*

Gogledd a De Cymru

**W.E.A**

Cyrsiau i Oedolion

Cyrsiau **dydd** a chyrsiau **nos**, 5 i 20 wythnos, mewn gwahanol bynciau:

**Hanes, Hanes Lleol, Arlunio, Cerddoriaeth, Llenyddiaeth, Byd Natur, Cymraeg fel ail-iaith, Gloywi Iaith, Dychwelyd i Addysg a.y.b**

*Ar gael hefyd :*
**Ysgolion Undydd a Chyrsiau Penwythnos**

Am fwy o fanylion, cysylltwch â'ch llyfrgell leol neu â

Swyddfa'r W.E.A., 33 Ffordd-y-Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2AP. Ffôn : 01248 353254

Swyddfa'r W.E.A., 10 Coopers Yard, Trade Street, Caerdydd CF1 5DQ Ffôn : 01222 235277

CBAC WJEC

## SIOP LYFRAU

- CYN-BAPURAU, MEYSYDD LLAFUR
- CYHOEDDIADAU'R UNED IAITH
- LLYFRAU GOSOD TGAU A SAFON 'UWCH'
- LLAWLYFRAU ASTUDIO
- CYHOEDDIADAU CILT
- ADNODDAU AR GYFER Y DYSGWYR
- CD-ROMS, FIDEOS + PHOSTERI
- ARCHEBION POST

**AR AGOR**
**LLUN - GWENER**
**9.00am - 5.00pm**

245 Rhodfa'r Gorllewin Llandaf CAERDYDD CF5 2YX
☎ (01222) 265063 (Cyhoeddiadau/Cyffredinol)
☎ (01222) 265112 (Cyn-bapurau, Meysydd Llafur)
FFACS: (01222) 575987



# *Y Fargen*

Mae S4C yn cyflwyno'r ffilm gyffrous Y Fargen sydd wedi'i saethu 'gefn wrth gefn' yn Gymraeg ar gyfer S4C ac yn Saesneg ar gyfer dosbarthiad rhyngwladol mewn sinemâu. Aneirin Hughes a Nichola Beddoe sy'n ymddangos yn y cyd-gynhyrchiad anturus gan Peakviewing Transatlantic mewn cydweithrediad â S4C a Unapix Entertainment.

S4C